Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

# Datganiad o bolisi am y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

## Dysgu creadigol drwy'r celfyddydau

Hydref 2020

ARIENNIR GAN Y LOTERI
LOTTERY FUNDED

Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru
Part Funded by Welsh Government

hyderus o ran anabledd
CYFLOGWR

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn darparu gwybodaeth mewn print bras a braille, ynghyd â fformatau sain a Hawdd eu Deall, ac ar ffurf Iaith Arwyddion Prydain. Byddwn hefyd yn ceisio darparu gwybodaeth mewn ieithoedd heblaw am Gymraeg neu Saesneg ar gais.

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn gweithredu polisi cyfle cyfartal.

# Datganiad o bolisi am y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

Mae'r datganiad yn cyfeirio at y gofyniad i fod yn ddiogel wrth storio, trin, defnyddio, cadw a gwaredu tystysgrifau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a gwybodaeth am y tystysgrifau.

Dyma fersiwn Awst 2020 o'r datganiad. Caiff ei adolygu bob dwy flynedd neu'n gynharach, os ôl yr angen.

## 1. Egwyddorion cyffredinol

Rydym ni'n defnyddio gwasanaeth gwirio'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd i asesu a yw ymgeiswyr yn addas am waith lle mae angen ymddiried yn y gweithwyr. Rydym ni'n glynu wrth God Ymarfer y Gwasanaeth o ran bod yn ddiogel wrth drin, defnyddio, storio, cadw a gwaredu'r tystysgrifau a gwybodaeth am y tystysgrifau.

Rydym ni hefyd yn cyd-fynd â'ch rhwymedigaethau dan Reoliad Diogelu Data Cyffredinol, Deddf Diogelu Data 2018 a deddfwriaeth berthnasol arall sy'n ymwneud â sut i drin, defnyddio, storio, cadw a gwaredu gwybodaeth am dystysgrifau. Mae manylion am hynny yng ngweddill y datganiad sy'n ategu ein Polisi Preifatrwydd.

Bydd pob gwiriad o'r Gwasanaeth yn cael ei gynnal ar ein rhan gan Gyngor Sir Powys dan delerau ei Gytundeb Corff Ambarél ffurfiol. Mae copi o'r Cytundeb ar gael drwy e-bostio: llywodraethu@celf.cymru

Cyngor Sir Powys fydd yn gyfrifol am weinyddu a phrosesu ein holl wiriadau o'r Gwasanaeth.

## 2. Y gofyniad am wiriad/tystysgrif gan y Gwasanaeth

I ategu ein Polisi Diogelu, bydd angen gwiriad DBS uwch a thystysgrif ddilys ar gyfer yr holl waith a gomisiynwyd yn uniongyrchol a fydd yn cynnwys pobl ifanc ac oedolion agored i niwed.

Rydym yn diffinio Tystysgrif ddilys fel a ganlyn:

- dim llai na 3 blynedd o'r dyddiad y'i dyroddwyd, ar yr adeg y bydd y gweithgaredd cysylltiedig yn gorffen

- os ydych wedi'ch cofrestru ar y gwasanaeth diweddaru a bod eich tystysgrif wreiddiol wedi'i chyhoeddi gan Gyngor Celfyddydau Cymru

Os ydych wedi'ch cofrestru ar y gwasanaeth diweddaru a bod eich tystysgrif wreiddiol wedi'i chyhoeddi gan sefydliad arall neu os nad oes gennych wiriad DBS cyfredol yna bydd Cyngor Celfyddydau Cymru yn cynnal gwiriad newydd i chi.

## 3. Storio a mynediad

Dim ond cofnod o'r gwiriad, rhif y dystysgrif a'r dyddiadau dilys y byddwn ni'n eu cadw. Byddwn ni'n cadw'r wybodaeth yn ddiogel mewn ffolderi electronig a bydd mynediad iddynt yn cael ei reoli a'i gyfyngu i'r rhai sydd â hawl i'w gweld fel rhan o'u gwaith. Ni fyddwn ni'n cadw copïau o unrhyw dystysgrifau.

## 4. Trin

Yn unol ag adran 124 o Ddeddf yr Heddlu (1997), dim ond i'r rhai sydd wedi'u hawdurdodi i'w derbyn fel rhan o'u gwaith y caiff gwybodaeth am dystysgrif ei throsglwyddo. Rydym ni'n cadw cofnod o bawb y datgelwn iddo wybodaeth am wiriad. Mae'n drosedd trosglwyddo'r wybodaeth i unrhyw un nad oes ganddo hawl i'w derbyn.

Byddwn ni'n cadw prawf o hyn am 2 flynedd o'r adeg eu derbyn. Bydd y cyfnod cadw'n fodd inni brofi ein harfer o recriwtio mwy diogel at ddiben diogelu ac archwilio mewnol.

## 5. Defnyddio

Gwneir gwiriadau DBS i gynorthwyo cyflogwyr i wneud penderfyniadau recriwtio mwy diogel. Mae Cod Ymarfer y DBS yn cynghori ei bod yn ofynnol trin ymgeiswyr DBS sydd â chofnod troseddol yn deg a pheidio â gwahaniaethu yn eu herbyn ar sail gweithgaredd troseddol nad yw'n berthnasol i'w rôl swydd. Bydd Cyngor Celfyddydau Cymru yn ystyried canlyniadau gwiriad DBS yn unol â natur y gwaith y mae'r unigolyn yn cael ei gontractio i'w wneud a gwneud penderfyniad ar y sail hon.

Dim ond at y diben penodol y gofynasom am y wybodaeth yn y lle cyntaf ac at y diben y mae'r ymgeisydd wedi rhoi ei ganiatâd llawn y byddwn ni'n defnyddio gwybodaeth o'r gwiriad.

## 6. Cadw

Unwaith y bydd penderfyniad recriwtio (neu benderfyniad arall) wedi'i wneud, nid ydym ni'n cadw'r wybodaeth am ragor o amser nag sydd ei angen. Bydd y cyfnod cadw sydd yn Adran 4 uchod yn fodd inni ystyried a datrys unrhyw anghydfod neu gŵyn ac at ddiben diogelu ac archwilio mewnol.

Drwy gydol y cyfnod bydd y storio a mynediad diogel yn parhau.

## 7. Gwaredu

Pan fydd y cyfnod cadw wedi dod i ben, byddwn ni’n dinistrio unrhyw wybodaeth ar unwaith drwy ddulliau diogel, drwy ddileu'r ffeil electronig o'n system. Wrth aros am gael ei dinistrio, ni fydd y wybodaeth yn cael ei chadw mewn unrhyw ffolder neu unrhyw gynhwysydd anniogel (er enghraifft, bin gwastraff neu sach i wastraff cyfrinachol).

Ni fyddwn ni’n cadw unrhyw lungopi na delwedd arall o'r dystysgrif nac unrhyw gopi o’i chynnwys. Ond, er gwaethaf yr uchod, gallwn gadw cofnod o ddyddiad cyhoeddi'r dystysgrif, enw'r person, y math o dystysgrif, y swydd dan sylw, y cyfeirnod unigryw a manylion y penderfyniad recriwtio a wnaethom.